11EG O HYDREF

# Ysgol Treganna

## Cyswllt Wythnosol



## Wythnos yma

Wythnos yma diolch i bawb am eich amynedd a'ch cymorth wrth i ni newid mynedfa'r Clwb Brecwast. Yn dilyn ymweliad gan swyddog Iechyd a Diogelwch y sir fe'm cynghorwyd bod angen sicrhau nad oedd disgyblion yn cerdded ar draws y maes parcio yn y bore. Felly rydym wedi newid mynedfa'r Clwb Brecwast ac mae'r disgyblion nawr yn dod mewn trwy'r glwyd ger prif fynedfa'r ysgol. Rydym yn mynd i barhau gyda'r trefniant yma wythnos nesaf ac yna gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau newydd diwedd wythnos nesaf. Rydym o hyd yn barod i dderbyn eich sylwadau a'ch adborth felly mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

Rydym hefyd wythnos yma wedi newid mynedfa gollwng y dosbarth Derbyn, mae disgyblion y dosbarth Derbyn nawr yn dod mewn trwy glwyd gefn yr iard ac nid trwy fynedfa'r maes parcio. Diolch i'r rhieni am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

Fel y nodwyd yng nghylchlythyr mis diwethaf, rydym fel ysgol yn symud i ffwrdd o ddefnyddio Trydar/X a byddwn o hyn ymlaen yn defnyddio Instagram i rannu gwybodaeth a lluniau am yr ysgol. Felly cofiwch i ddilyn cyfrif Instagram yr ysgol. Os nad ydych wedi llenwi'r ffurflen ar gyfer rhoi caniatâd i'ch plentyn i fod ar instagram yna gofynnwn yn garedig i chi wneud cyn gynted ag y bod modd.

https://forms.office.com/e/me1KV5DQyQ

Cofiwch hefyd am ein gwefan newydd a gafodd ei lansio wythnos ddiwethaf. Mae calendr o ddyddiadau pwysig y tymor ar y wefan ac rydym yn rhoi'r cyswllt wythnosol a'r cylchlythyr ar y wefan yn wythnosol.

## Calendr

**Bws Beic Cyfarfod ym mharc Thompson am 8.15**
**18/10/24**

**HMS (dim ysgol i'r disgyblion)**

**25/10/24**

**Proffil Un Dudalen**

Diben y nosweithiau rhieni tymor yma fydd casglu gwybodaeth gan bawb sy’n ymwneud â chefnogi eich plentyn. Gall hyn fod i gefnogi ei anghenion gofal iechyd, addysgol neu les yn yr ysgol. Caiff yr holl wybodaeth a drafodir yn ystod y cyfarfod ei ddefnyddio i roi Proffil Un Dudalen ar waith i gefnogi eich plentyn.

Beth yw Proffil Un Dudalen?

Nod y Proffil Un Dudalen yw rhoi cipolwg cadarnhaol o’ch plentyn, gan gynnwys: beth sy'n wych am eich plentyn; beth sy'n bwysig i'ch plentyn; a sut allwn ni ei gefnogi orau. Gwelir enghreifftiau isod.

Cyn y cyfarfod felly, gofynnwn i bawb ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth rydym ni’n ei hoffi a’i edmygu am y plentyn?
- Beth sy’n bwysig i’r plentyn?
- Beth sy’n gweithio? Beth all weithio’n well?
- Beth sy'n bwysig i'r plentyn nawr ac yn y dyfodol?

Edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio â chi er lles a datblygiad eich plentyn.

Enghraifft Derbyn
Enghraifft Blwyddyn 1, 2, 3
Enghraifft Blwyddyn 4, 5, 6

## Noson Rhieni

Bydd nosweithiau rhieni'r dosbarth Derbyn i Fl 6 ar nos Fawrth a nos Fercher yr 22ain a'r 23ain o Hydref. Bydd y cyfarfodydd yma yn gyfle i chi drafod sut mae'ch plentyn wedi ymgartrefu yn yr ysgol ac yn gyfle i ni fel ysgol i ddysgu mwy am eich plentyn.

Bydd angen trefnu apwyntiad wrth fynd ar y linc

www.parents-booking.co.uk

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r ysgol.

# Y Nyth

**Dydd Iau, 17 Hydref am 4.30yp**
Cyfarfod cyntaf ein Fforwm Rhieni – sef grŵp ar gyfer rhieni, cyn rhieni, gofalwyr, neiniau, a theidiau plant sydd wedi cael diagnosis Awtistiaeth ac/neu ADHD, neu sydd yn y broses o dderbyn diagnosis (h.y., ar y llwybr asesu Niwroddatblygiadol).
Cliciwch yma i gofrestru eich presenoldeb

**Dydd Gwener, 18 Hydref am 9.15yb**
Gweithdy 'Delio ag Emosiynau Mawr' efo Gareth Jones, Athro Arbenigol.
Cliciwch yma i gofrestru

## Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**
"Fy hoff beth i yw…/ Fy nghas beth i yw…"
**Her**
"Mae hwn llawn gystal â.."
"Dydy hwn ddim gystal â"

**Testun trafod yr wythnos**
Pe bawn i'n anweledig…

**Cân yr wythnos**
Al Lewis - Lliwiau Llon

**Idiom yr wythnos**
Dŵr dan bont